This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

14770
f670

6000889974

14770 f. 670

CANIADAU

DWYFOL;

Wedi eu hamcanu

Mewn IAITH ESMWYTH,

Er Budd a Gwaſanaeth i

BLANT.

Yn SAISNEG

Gan ISAAC WATTS, *D. D.*

Ac a gyfieithwyd i'r GYMRAEG

Gan DDAFYDD JONES, *o* Lanwrda.

MAT. xxi. 16.

O enau plant bychain a rhai yn ſugno y perffeithiaiſt foliant.

CAERFYRDDIN,

Argraphwyd ac ar werth gan I. ROSS, yn Heol-Awſt. Ac ar werth gan Mr. R. Rhydderch, Gwerthwr-llyfrau, yngNghaerfyrddin; Mr. Alen, yn Hwlffordd; Mr. D. Morgan, yng Nghaſtell-Nedd; Mr. Beedles, ym Mhont y pwl, a Mr Jones, yn Aberhonddu. M,DCC,LXXI.

(Pris CHWE'CHEINIOG wedi ei rwymo.)

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor

RHAGYMADRODD

AT BAWB Y MAE

Dugiad PLANT i fynu yn perthyn.

Fy Nghyfeillion,

GOFAL pryderus a phwysfawr a roddwyd arnoch chwi. Y mae doethineb ac iachawdwriaeth y genhedlaeth ganlynol wedi eu hymddiried i chwi ymlaen llaw, ac yn ymddibynnu yn fawr ar eich tywyſiad chwi. Hadau trueni neu ddedwyddwch yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw, yn fynych a hauir yn foreu iawn; ac am hynny beth bynnag a dueddo i roddi i feddyliau plant archwaeth da o rinwedd a chrefydd, a ddylai gael yn y lle cyntaf ei oſod ger eich bronnau.

Cân, neu *feſur cerdd*, a amcanwyd ar y cyntaf at waſanaeth Duw, er iddi gael ei chamddefnyddio yn reſynol wedi hynny. Yr hynafiaid ymhlith yr *Iuddewon* a'r *Cenhedloedd* a ddyſgent i'w plant reolau o foeſoldeb ar gân. Gorchymynwyd i feibion

Iſrael ddyſgu Cân *Moſes*, Deut. xxxi. 19, Ac fe'n cyfarwyddir yn y Teſtament n ydd nid yn unig i ganu â gras yn ein cal nau, ond i *ddyſgu a rhybuddio eu gilydd m Hymnau a Chaniadau*, Eph v. 19. A mae y pedair mantais hyn i'w cael o hyn

Yn gyntaf. Y mae mwy o ddigrifw ïe yn nyſgu gwirioneddau a dyledſwyd y ffordd hon. Y mae rhyw beth mor c fyr a derbyniol mewn cynghanedd a me ac a duedda blant i wneuthur y rhan l o'u gorchwyl yn ddifyrrwch. A chwi wch droi hyd yn oed eu dyledſwydd wobr, trwy roddi iddynt y fraint o ddy un o'r Caniadau hyn bob wythnos, os c lawnant waith yr wythnos yn iawn, addaw iddynt y Llyfr ei hun, pan ddyſg ddeg neu ugain Caniad allan o hono.

Yn ail. Y peth a ddyſger ar gân a ged yn hwy mewn cof, ac a adgofir yn gy Y cyffelyb ſeiniau a'r cyffelyb nifer o ſyl au yn ôdidog a gynnorthwyant y cof. dichon mynych ddigwydd, y gall diwe cân yn rhedeg yn y meddwl, fod yn fo ion effeithiol i gadw ymaith ryw brofed aeth, neu, dueddu i ryw ddyledſwydd, na byddo gair o'r Yſgrythur ar eu medd iau.

Yn drydydd. Hyn fydd yn dryſor gwaſtadol i feddyliau plant, fel y caffont ryw beth i fyfyrio arno, ac i'w ganu troſto pan fyddont yn unig wrthynt eu hunain. Hyn a ddichon rai prydiau roi i'w meddyliau dro dwyfol, a chodi ynddynt fyfyrdod ieuangc. Fel hyn ni chyhmellir hwynt i geiſio cynnorthwy rhag gwagder meddwl, allan o gerddi llygredig ac enbeidus yr oes.

Yn bedwarydd. Y caniadau dwyfol hyn a allant fod yn fatter hyfryd a chymmwys i'w haddoliad beunyddiol, neu wythnoſol, i ganu un o honynt yn y teulu ar yr amſer y byddo i'r rhieni neu'r llywodraethwyr bennodi; ac am hynny mi a gyfyngais y pennillion i feſuron mwya cyffredin y Salmau.

Y rhan fwyaf o'r llyfr bychan hwn a gyfanſoddwyd er ys amryw flynyddoedd aeth heibio, ar ddeiſyfiad cyfaill, yr hwn a fu yn hir yn y gwaith o gateceiſio nifer fawr o blant o bob math, gyd â medr a llwyddiant helaeth. Fel na chewch yma ddim a fyddo yn ſawrio o bartiaeth: Plant uchelradd ac iſel-radd, o eglwys *Loegr*, neu Ymneilltuwyr, y rhai a fedyddir yn eu mebyd, neu y rhai ni fedyddir felly, a allant bawb uno ynghyd yn y caniadau hyn. Ac fel yr

ymegniais i oſtwng y iaith yn gydwaſtad
dealltwriaeth plentyn, ac i'w chadw (os yv
yn bosibl) uchlaw diyſtyrwch ; felly mi
amcenais leſau pawb (os poſibl) heb dram
gwyddo neb. Gobeithio yr wyf pa fwya
cyffredin yw yſtyr y cyfanſoddiadau hyn
y gallant fod trwy hynny o ddefnydd
gwaſanaeth mwy cyffredinol.

Mi a chwanegais yn y diwedd rai caniadau
ar yſtyriaethau moeſol i blant, i annog rhyw
un a fyddo cymmwyſach i yſgrifennu llyfr
bychan o honynt.

Bydded i'r Hollalluog Dduw eich gwneu
thur yn ffyddlon yn y gwaith pwysfaw
hwn o ddugiad plant i fynu ; bydded idd
fendithio eich gofalon â'i ras yn helaeth
fel y byddo 'r genedl ſydd yn codi yn
Mrydain Fawr yn ogoniant ymhlith y Cen
hedlaethau, yn batrwn i'r byd criſt'nogol
ac yn fendith i'r holl ddaear.

I. WATTS

Y CYN

Y CYNHWYSIADAU.

1. CAN *gyffredinol o fawl i Dduw.*
2. *Mawl am greadigaeth a rhaglunïaeth.*
3. *Mawl i Dduw am ein prynedigaeth.*
4. *Mawl am drugareddau yſprydol a thymborol.*
5. *Mawl am enedigaeth mewn gwlad griſtïnogol.*
6. *Mawl am yr Eſengyl.*
7. *Rhagoriaeth y Bibl.*
8. *Mawl i Dduw am ddyſgu darllain.*
9. *Duw yn gweled pob pêth.*
10. *Meddyliau difriſol am Dduw ac angau.*
11. *Nef ac uffern.*
12. *Manteiſion Creſydd foreuol.*
13. *Y perygl o oedi.*
14. *Eſamplau o Dduwioldeb cynnar.*
15. *Yn erbyn dywedyd celwydd.*
16. *Yn erbyn cynhennu ac ymladd.*
17. *Cariad rhwng brodyr a chwiorydd.*
18. *Yn erbyn gwatwar a galw enwau.*
19. *Yn erbyn tyngu a rhegu a chymmeryd enw Duw yn ofer.*
20. *Yn erbyn ſeguryd a drygioni.*
21. *Yn erbyn cyſteillach durwg.*
22. *Yn erbyn balchder mewn dillad.*
23. *Ufudd-dod i rieni.*
24. *Achwyniad plentyn.*

CAN II.

Mawl am Greadigaeth a Rhagluniaeth.

I.

CAnaf am allu dirfawr Duw,
A wnaeth bob rhyw fynyddoedd ;
Tannodd ar led y moroedd maith,
A'i ryfedd waith yw'r nefoedd.

II.

Canaf ddoethineb Duw, a rydd
Yr haul y dydd i oleuo ;
A phair i'r lloer a'r ſer y nos,
Ymddangos a diſgleirio.

III.

Canaf ddaioni Duw 'r un-pryd,
Sy'n llanw'r byd â lluniaeth ;
Cre'duriaid oll a'i air wnaeth e',
A da fe'i galwe' eilwaith.

IV.

Duw, gwel'd dy ryfeddodau 'rwyf,
Ble bynna bwyf yn edrych ;
Os trof ſy llygaid tu a'r llawr,
Neu'r wybren fawr a'i hentrych.

V.

Pob llyſiau a phlanhigion mân,
Sy'n datgan dy ogoniant ;
Wrth d' arch y cwyd cymmylau'n glau,
Tymheſtloedd hwythau chwythant.

VI.

Cre'duriaid oll er amled yn'
I'th ofal ſy'n waſtadol ;
'D oes lle i ffoi gan un dyn byw,
Na byddo Duw'n brefennol.

VII.

A'i gariad lleinw 'r nefoedd fry,
A'i lid ſy'n uffern obry !
Wyf ar ei ddae'r ble bynna bw'i,
A'i awyr w'i'n anadlu.

VIII.

Ei law a'm ceidw ar bob tro,
A'm gwilio mae â'i lygad;
Gan hynny pam anghofiaf Dduw,
Can's agos yw yn waſtad?

CAN III.

Mawl i Dduw am ein Prynedigaeth.

I.

MAWL i'r doethineb, nerth a'r gras,
Cyfiawnder addas hefyd,
A ddarfu uno ynghyngor Duw
I gadw'n rhyw gollaſyd.

II.

O'r ffrwyth gwarddedig bwyttei'n tad,
O'i ddedwydd 'ſtad y cwympodd;
A ninneu'i blant o'i lwynau ddaeth,
Tan farn marwolaeth dygodd.

III.

Ond clod i Dduw rhoes ei Fab rhad,
Ein cig a'n gwa'd cymmerodd;
I wneud ein heddwch ni â Duw
Ei fywyd gwiw aberthodd.

IV.

I holl gyfreithiau Dad rhoes barch,
Trwy ammarch a dorraſom;
Dug ein pechodau ar y groes,
Llawn werth a roes ef droſom.

V.

Ac wele codi wnaeth o'r bedd,
I'r nef mewn gwedd ardderchog;
Mae'n pledio yno'i haeddiant pur
Dros y troſeddwyr euog.

VI.

Teyrnaſu ar ſaingc gogoniant mae,
Trwy 'allu a'i awdurdod:
Rhyddhau ei bobl mae'n ddiball
O rwymau'r fall a phechod.

VII. Oddi

VII.

Oddi yno'r Arglwydd daw i'r farn,
Ac â llef gadarn geilw,
A hyllt y beddau nes bywhau
A llonni'r ſeintiau meirw.

VIII.

Ymddangos boed i minneu'n llon,
Bryd hyn ger bron y Barnwr;
A chyd â'r ꝺyrfa ſeinio ma's
Achubol ras ſy Mhrynwr.

CAN IV.

Mawl am drugareddau yſprydol a thymhorol.

I.

YN rhodio i maes bryd bynna bwyf,
Gwel'd llawer 'rwŷf o dlodion;
Pa beth a dalaf fi i'm Duw
Am amledd amryw roddion?

II.

Ni haeddais i ddim gwell nâ hwy,
Rhoes Duw im' fwy er hynny;
Can's bwyd ſy gennyf pan y mae
Rhai'n begian, rhai'n newynu.

III.

Pa rif o blant wy'n wel'd o hyd,
Ar hyd y byd mewn noethni?
A'm gwiſgo innau 'n glyd a wnaed,
O mhen i'm traed rhag oerni.

IV.

Pan na ŵyr tlodion rai pa le
I ddodi pennau i orwedd;
Mae gennyf artre' i fyw o hyd,
A gwely clyd o 'mgeledd.

V.

Rhai ddyſgant dyngu a rhegu'n rhydd,
Dweud celwydd, a lledratta,
Ond i'th was'naethu dyſgir fi
A'th ofni di 'r Gorucha'.

VI.

VI.

Ai dyma roddion hâel dy law
I mi uchlaw'r rhai hynny?
Am hyn dy garu wnelwy'n fwy,
A gwell nâ hwy'th was'naethu.

CAN V.

Mawl am Enedigaeth mewn Gwlad Grist'nogol.

I.

DUW mawr yn'fore cania i'th fawl,
Mae gennyt yn fy ie'ngctid Hawl;
Am ddechreu f' oes i'th foli 'rwyf,
A gwella nghân pa hyna' bwyf.

II.

I'th ras rhwymedig wyf yn wir,
Fy ngeni ar Fryttanaidd dir;
Lle llawn o drugareddau 'm Ner,
A geiriau'r iechydwriaeth ber.

III.

Newidia' ddim o'r wlad 'rwy'n byw
Am holl gyfoethog aur *Peryw*;
Mae yn fy llaw i dryfor gwell
Nag fydd yngwledydd *India* pell.

IV.

Tofturio 'r wyf wrth rai fy'n byw
Mewn gwledydd na's adwaenant Dduw;
Ni wyddant am lawenydd ne',
Nid ofnant uffern athrift le.

V.

Dy addewidion gwerthfawr di
Sy'n 'nynnu'm chwant a'm gobaith i;
Pan fo'th genhadon glewion glân
Yn peri 'm ffoi rhag bythol dân.

VI.

A'm hanadl mi'th folianna' o hyd
Am ddangos ffordd i'r nefol fyd;
I ffordd marwolaeth mwy nid âf,
Cam dreulio'th ddoniau chwaith ni wnaf.

CAN VI.

Mawl am yr EFENGYL.

I.

ARglwydd, ei gyfrif 'rwyf i'th ras,
Ac nid i ddamwain fel mae rhai,
Fy ngeni o grist'nogol dras,
Nâd *Pagan* wyf neu *Iuddew* gau.

II.

Beth roisai'r hen frenhinoedd fu
A'r holl brophwydi o *Israel* ryw;
Pe clywsent hwy'r fath bethau cu
A ddaeth i ni gan *Grist* Mab Duw.

III.

Mor llawen fyddai 'r rhai digred
Sydd yn addoli pren a ma'n:
Pe gwelent Lyfyr Duw ar led,
A nabod *Crist* a'i 'Fengyl lân.

IV.

Os 'Fengyl *Crist* wrthodaf fi
Podd gallaf godi mhen ryw ddydd?
Iuddewon a *Chenhedloedd* lu
Mewn barn yn codi'n f' erbyn fydd.

CAN VII.

Rhagoriaeth y BIBL.

I.

DUW, gyd â mawl a syndod maith
Ar dy holl waith edrychaf;
Ond dy ddoethineb, nerth a'th ddawn
O'th air a gawn egluraf.

II.

Mae addysg i ni'n cael ei roi
Gan fer sy'n troi'n eu cylchoedd;
Ond yn dy air cyfrwyddyd caf
Pa ffordd yr âf i'r nefoedd.

III. Dy

III.

Darpara'r meuſydd fwyd i mi
Mawr yw daioni 'r Arglwydd;
Ond ffrwythau bythol fywyd cair
Wrth chwilio'th air yn hylwydd.

IV.

Yn hwn mae fy nhryſorau pur,
Yn hwn mae nghyſur odiaeth;
Yn hwn caf fy niwallu'n llawn,
Yn hwn mae'm cyflawn obaith.

V.

Duw, par im' ddyall dy gyfraith gu,
A pheth a fu mhechodau;
A dwg fi'th 'Fengyl lân bob cam
Gael pardwn am fy meiau.

VI.

Dyſg hon fi'r modd bu farw *Criſt*
I achub f' athriſt enaid;
Nid llyfrau'r byd i gyd fy'n ol,
Fath wyrthiau nefol ddywaid.

VII.

Boed i mi garu Mibl mwy,
A 'mhoffi fwy fwy yntho;
Darllain y gwyrthiau hyn y dydd,
A'r nos eu prydd fyfyrio.

CAN VIII.

Mawl i Dduw am ddyſgu Darllain.

I.

I'R Arglwydd da offrymmaf glod
Fy nhafod yn ddiolchgar,
Am ddyſgu 'm ddarllain (lles a bair)
Ei ſanctaidd air mor gynnar.

II.

Ac am fy nwyn i wel'd mor fawr
Yw mherygl 'nawr yn barod;
Wrth nattur ac ymarfer gas
Yn druan was i bechod.

III.

A'm dwyn i wel'd nas meddaf rym
I wneuthur dim rhag marw;
A pha le ffy'r fath adyn gwael
Rhag uffern gael ymgadw.

IV.

Fy Arglwydd da dy Lyfyr di
A faneg i mi 'n eglur,
Am ras i faddeu fy holl fai
Ac i lanhau fy nattur.

V.

Yn hwn darllenaf hanes wiw,
Am *Grift* Mab Duw a gymmerth
Ein hachos mawr o'i gariad rhad,
Ei werthfawr wa'd fu'n bridwerth.

VI.

O'r nef lle mae'n teyrnafu'nawr,
Enfyn i lawr ei Yſpryd,
I ddangos gwrthiau 'i gariad cu
A thraethu 'Fengyl hyfryd.

VII.

Yr Yſpryd hwn a'm dyſgo'n bur
I gredu'r gwirioneddau,
A draetho'th weiſion di ar lled,
A'r rhai a gred dy feintiau.

VIII.

Ac yna mi folianna'r Lon
A llawen dôn felus-ber;
Im' ddyſgu darllen d' ciriau cu,
A'm gwaith na bu yn ofer.

CAN IX.

DUW yn gweled y cwbl.

I

DUW mawr, trwy dywyll nos heb gel
Dy lygad wel yn amlwg;
Ein holl weithredoedd dirgel maen'
Yn noeth o flaen dy olwg.

II.

Nid oes un pechod ag a wnair,
Na drygair ar ein tafod,
Nad ydynt yn dy lyfyr di,
I'r farn dont i'n cyfarfod.

III.

A gaiff y beiau wnaethum i
Oll eu cyhoeddi yno ?
O flaen yr haul, angylion Duw
A phob dyn byw'n eu gwrando.

IV.

Duw, wrth dy draed cwilyddio wnaf.
Ni beiddiaf edrych fynu ;
Fy meiau maddeu ac ymaith tyn
O'th lyfyr cyn fy marnu.

V.

A chofia'r holl flinderau trift
A ddygodd Crift fy Arglwydd ;
A moes ei waed ef i'm glanhau,
Ac i ddileu f' euogrwydd.

VI.

O pâr im' ofni tra fwy byw
Gyd-ddwyn ag unrhyw bechod ;
Can's gweld a chlywed mae'r Duw mawr,
A phob bai lawr mae'n ofod.

CAN X.

Meddyliau difrifol am Ddaw ac Angau.

I.

MAE Duw, teyrnafu fry mae ef,
Arglwydd y nef a'r ddaear yw ;
'Rwy'n ofni 'lid, 'rwy'n ceifio 'i hedd,
A mola 'i fawredd tra fwy' byw.

II.

Mae cyfraith a roes ef o'n bla'n,
I'n dyfgu bawb pa beth a wnawn ;
Plyg f' enaid i'w orch'mynion glân,
Can's fanctaidd ynt ac union iawn.

III.

Mae 'fengyl o gyfoethog ras,
Lle caiff pechadur gyſur llawn ;
Duw maddeu ſy mhechodau-cas,
Torrais dy ddeddfau'n fynych iawn.

IV.

Mae awr pan rhaid im' farw'n lân,
Ni's gwn pa gynted y daw hi ;
Mae myrdd yn meirw o blant mân,
A myn'd i'r farn o'm hoedran i.

V.

Boed im' iawn dreulio oriau f' oes,
Tra bo dydd gras i gwpla ngwaith ;
'Difeirwch yn y bedd nid oes,
Na chynnyg hedd i'r meirw chwaith.

VI.

Fel pren a dorrer ac a ſyrth
I'r de', neu'r gogledd yno ſe'f ;
Dyn â i'r nef neu uffern byrth,
Trig yn y 'ſtad y trengodd ef.

CAN XI.

NEF ac UFFERN.

I.

MAE nefoedd o lawenydd mawr
A hedd uwchlaw'r wybrennau ;
A phan fo marw duwiol blant
I honno'r ânt yn ddiau.

II.

Mae uffern lle ofnadwy hyll,
A bythol erchyll boenau,
Drwg ddynion yno a diafflaid cân'
Mewn mwg a thân gyd-ddiodde.

III.

All un fel fi, yſtruan gwan ?
Ffoi rhag y fan felldiged ?
A diſgwyl pan fwy' marw'n ſyth
I'r nefoedd byth gael myned ?

IV. Gwed

IV.

Gweddio a darllen wnaf am hyn
Tro anadl yn fy ngenau ;
Rhag cael fy nhorri heddyw lawr,
A'm gyrru i ddirfawr boenau.

CAN XII.

Manteiſion Crefydd foreuol.

I.

GWynfyd y plant ſy'n derbyn dyſg,
Ac addyſg dda yn forau ;
Ffieiddiant ffyrdd troſeddwyr ffol,
Nid ânt i uffernol lwybrau.

II.

Pan roddo'n ddechreu'n hoes i Dduw,
Hoff gantho yw fe'i cymmer ;
Offrymmiad clau o flodau'n nerth,
Nid ydyw aberth ofer.

III.

Haws gwaith yw os dechreuwn ni
Yn ieuainge ofni'r Arglwydd,
Can's dynion hen wrth bechu'n hir
A gledir mewn euogrwydd.

IV.

Rhag maglau fil diogelwch fydd
O ddechreu crefydd foreu ;
Mewn oedran, gras ein cadw wna,
Ac a gryfha'n rhinweddau.

V.

I tŷ'r Duw Hollalluog mawr,
Y rhown ni 'nawr ein mebyd ;
Boddlondeb cawn o wel'd ein bod
Yn eiddod tros ein bywyd.

VI.

Mewn peraidd fawl a gweddi bid
Im' dreulio 'm ie'ngctid nerthol ;
Felly par'toir fi fyw yn hwy,
Neu i farw 'n fwy cynharol.

CAN

CAN XIII.

Y PERYGL o QEDI.

I.

PAM d'wedaf mai, *Rhy gynnar yw*
Im' gofio angau a cheiſio Duw;
Gall blodau wiwo ganol dydd
A minneu farw heddyw 'n brudd.

II.

Fy nghalon gyndyn os ni chlyw
Alwediga ethau graſlon Duw,
Mewn pechod gall galedu'n ſyth,
Ac heb gael edifeirwch byth.

III.

Duw, beth pe digiai tr'w'i'n naccau
Gweddio, darllen a gwellhau?
A thyngu na rydd ynteu gluſt
Bryd arall i'm griddfannau triſt.

IV.

Beth os ei erchyll lid 'a lyſg
Am wrthod gras a duwiol ddyſg?
A'i gariad droi'n ddigoſaint mawr
A'm taro yma'n farw i lawr?

V.

Peth enbyd iawn ei ddigio yw,
Pwy edwyn nerth a dial Duw?
Un ergyd o'i drom wialen dry
Blant drwg yn glau i uffern ddu.

VI.

Ac yno byth gwaith ofer fydd
Am ras a phardwn grio'n brudd;
Dymuno amſer i ail fyw,
Ne' obeithio gweled wyneb Duw.

CAN XIV.

Eſamplau o Dduwioldeb cynnar.

I.

PA fendigedig ſiamplau gair
Ar lawr yngair y bywyd,

O blant gofalus fu cyn hyn
Am grefydd yn eu hie'ngctid.

II.

Y *Ieſu* ſy 'n teyrnaſu fry,
A llywodraethu 'r bydoedd ;
Yn blentyn gynt fel minneu gad,
A deddf ei Dad a gadwodd.

III.

Siaradei â gwyr yn ddeuddeg o'd,
Er ſyndod i'r *Iuddewon* ;
Er hyn i'w ſam fe roddei barch,
Doi wrth ei harch yn union.

IV.

Plant ganent gynt *Hoſanna* 'n hy
A'u Prynwr *Ieſu* a folent ;
A'u tafod parchent ef ar lled,
A'r *Phariſe'd* a'i cablent.

V.

A *Samuel* yn faban gwiw,
I weini i Dduw a ddygid ;
A *Thimotheus* a ddyſgei 'n bur
Y 'ſgrythur yn ei ie'ngctid.

VI.

Pa ham yr oedai'r peth trwy fai
A ddyſgodd rhai mor fôreu ?
Na threuliwyf un diwarnod mwy,
A'r gwaith yn hwy heb ddechreu.

CAN XV.

Yn erbyn dywedyd Celwydd.

I.

PETH hyfryd iawn i ie'ngctid yw
Rodio yn ffordd doethineb Duw ;
I ofni celwydd, dweud y gwir,
Fel gallo pawb eu credu'n bur.

II.

Ni's gallwn roi i'r celwyddwr gred,
Er mai gwirionedd weithiau ddwed ;

A'r hwn yn gynta a wnel un bai
A'i guddio â chelwydd a'i gwna'n ddau.

III.

A glywſoch chwi, neu ddarllen am
Gaſineb Duw at dwyll a cham?
Fel t'rawyd *Ananias* lawr,
Yn farw am ei gelwydd mawr.

IV.

A'i wraig *Sapphira* marw fu,
Pan ddaeth hi mewn a bod mor hy,
A cheiſio cadarnhau yn ſiwr
Y celwydd a dd'wedaſai'r gwr.

V.

Mae Duw'n ymhoffi yn y rhai
Sy'n dweud gwirionedd heb ddim llai;
Ond pob celwyddwr fydd â'i nyth
Mewn llyn o dân a brwmſtan byth.

VI.

Boed i mi wilio 'nhafod coeth
Rhag cael fy nhaflu i uffern boeth;
Can's pob celwyddau o dd'wedo plant
Yn llyfyr Duw eu cyfrif cânt.

CAN XVI.

Yn erbyn Cymhennu ac Ymladd.

I.

GAdewch i gwn i chwyrnu a chnoi,
Ac i gyffroi o bryſur;
Ymladded eirth a llewod dig
Can's dyna'u ffyrnig nattur.

II.

Ond blant ni ddylech chwi roi lle
I 'nwydau mor annedwydd;
Eich dwylo bach erioed ni wnawd
I rwygo cnawd eich gilydd.

III.

Boed cariad trwy'ch holl waith o hyd,
A'ch geiriau gyd yn ſwynaidd;

Fel Mab y Forwyn 'mrowch ymddwyn,
Y *Iefu* mwyn caruaidd.

IV.

Fel Oen un diddrwg oedd erioed,
Ac fel mewn oed y tyfodd;
Mewn ffafar gyd â Duw a dyn
Yn enwog un cynhyddodd.

V.

'Nawr mae'n teyrnafu yn y nef,
A gwel'd mae ef oddi yno
Y plant mewn cariad fydd yn byw,
Fe nods 'r cyfryw 'n eiddo.

CAN XVII.

Cariad rhwng Brodyr a Chwiorydd.

I.

PA gynnen bynnag fo o dre',
Boed heddwch gartre'n wastad;
Rhwng brodyr a chwiorydd bach
Ni ddylai 'mgintach ddwad.

II.

Mewn nyth mae'r adar yn gyttun;
Ac ond yw hynny'n g'wilydd,
A phlant o'r un tŷ mor ddiras
A chwympo ma's a'u gilydd.

III.

Drwg enwau'n gynta' a geiriau dig,
Nad ynt ond chwythig chwythiad;
All droi yn ffyn mewn nattur boeth,
Cleddyfau noeth a mwrddrad.

IV.

Fe demtia'r diafol un mab mam
I wneuthur cam ag arall;
Cain ddrwg, fel hyn ei yrru wnawd
I ladd ei frawd mor angall.

V. Y

V.

Y doeth a oera'i lid, os nyn,
O'r lleia cyn tywyllnos ;
Ond dig ym mynwes fwl y fydd
Hyd fore-ddydd yn arnos.

VI.

Duw, maddeu ein plentynaidd lid,
A ſymmud ein hymſerthiad ;
Rho gyd ag oedran râs a dawn
A chalon lawn o gariad.

CAN XVIII.

Yn erbyn Gwatwar a galw Enwau.

I.

EIN tafod wnaed i foli'r Ion,
Nid i roi i ddynion enllib ;
Pan roddo eraill in' ddrwg ſri,
Na thalwn ni'r cyffelyb.

II.

Tafodau drwg ſy'n gofyn cur,
A'u coſpi'n wir a ddylyd ;
Euog o uffern dân yw ſo,
A alwo 'i frawd yn ynfyd.

III.

Y geneu halogedig hy,
Sy'n gwawdio a chablu'n ddiffaith,
Y ſaint, neu bethau ſanctaidd Duw,
Tyrr ef y cyfryw ymaith.

IV.

Hen *Elizeus* ei watwar ca's
Gan blant diras yſgymmyn,
Gwaeddaſant ar y prophwyd cu
Dos, dos i fynu moelyn.

V.

Duw 'n fuan iawn mewn llidiog fodd
Attaliodd eu drwg foeſau,
Anfonodd eirth a'u llarpio wnaed,
Mewn griddfan, gwaed a dagrau.

VI. Duw

VI.

Duw mawr ofnadwy wyt, yn wir,
I bawb ſy'n gwneuthur pechod ;
Rho im' dy ras, a dyſg i mi
Wrth reol ddoſi 'nhafod.

CAN XIX.

Yn erbyn Tyngu a Rhegu a chymmeryd Enw DUW yn ofer.

I.

ANgylion yn y nef ſy'n byw
A barchant d'Enw mawr, O Dduw!
Gryn diaflaid hwythau'n uffern ddu,
Tan fraw dy wialen oddi fry.

II.

Ond plant rhyfygus, drwg eu ſain,
Amherchi'th Enw mawr mae 'r rhai'n ;
A phan y digiont tyngu wnan'
A rhegant eu cyfeillion mân.

III.

O'th flaen p'odd ſafant hwy 'nol hyn,
Rai ddarfu dy ddi'ſtyru'n llyn ;
Pan farnech hwy i'r lle dihoen
O fythol dân a didrangc boen.

IV.

Ac yno byth ni chânt un dafn
I oeri eu tafod poeth na'u ſafn ;
Ond yma mi a'th fola'n gu,
Mewn gobaith byth o'th foli fry.

V.

Fe glwyfa nghalon os fi glyw
Drueiniaid yn amherchi Duw ;
Duw mawr yr hwn wy'n ofni ei lid
A'r nefol Dad wy'n garu o hyd.

VI.

Os halogedig fydd y plant,
Os cym'ryd d' Enw'n ofer wnant,
A thyngu a rhegu yn ddiras,
Gadawaf eu cyfeillach gas.

CAN XX.

Yn erbyn SEGURYD a DRYGIO

I.

MOR ddiwid mae'r wenhynen fach
Heb ẽiriach un awr deſog,
Ond caſglu mêl ar hyd y dydd
O lyſiau a gwŷdd blodeuog.

II.

Mor gywrain gweithia i chelloedd mâp,
A'r cwyr mor lân mae'n ledu,
Gan boeni'n fawr i lanw 'i thŷ,
A'r mêl mae hi yn gaſglu.

III.

Mewn gwaith neu ryw gelfyddyd wiw
Bwyſ fineu fyw yn ddiwyd,
Can's *Satan* gais ryw ddrwg bob tro
I ſegur ddwylo i wneuthyd.

IV.

Mewn gwaith neu lyfrau treulio wna'
Flynyddoedd cynta'm ie'ngẽtid ;
Fel gallwyf roi rhyw gyfrif da
Am bob dydd yma o'm bywyd.

CAN XXI.

Yn erbyn CYFEILLACH DDRW

I.

PA ham yr âf i chwareu mwŷ
At blant nad wy'n eu hoffi,
Sy'n tyngu a rhegu'n fawr eu tra
Yn ymladd a difenwi ?

II.

Câs gennyf wrando 'u nwyfus gân
A'u geiriau aflan enbyd ;
Ni lygra 'i nhafod byth o'm bodd
A'r fath ymadrodd ynfyd.

III.

Mi droaf oddi wrth ffyliaid ffwrdd,
Nid âf i gwrdd a gwawdwyr ;
Am rodio gyd â'r doeth yr wy',
I ddyſgu mwy o ſynwyr.

IV.

Oddiwrth un bachgen drwg i'n myſg,
Deg eraill ddyſg ei gampau ;
Un ddafad heintus lygra'r praidd,
Nes bont yn glafaidd hwyntau.

V.

Duw 'r wy'n caſau cyd-rodio a byw
A phlant annuwiol diriaid ;
Am hyn na yrr fi i uffern lle
Nad oes ond pechaduriaid.

CAN XXII.

Yn erbyn BALCHDER mewn DILLAD.

I.

PAM y balchia neb rhyw un
Mewn dillad, gorchudd c'wilydd dyn?
Y gwaith o 'mdrwſio oll ni bu
Nes pechodd Eſa 'n hen famgu.

II.

Cyn gwiſgo'r gorchudd, collodd hon
Ei gwiſg o ddiniweidrwydd llon ;
Ei harddwch ſyrthiodd, etto 'i phlant
Yn nodau'i gwarth ymffroſtio wnant.

III.

Pa foſt, pa falchder, pa 'mdegcau,
Mewn dillad newydd ſy gan rai ?
Fu'r ddafad cyd yn wiſgo'n wlan,
Neu 'nghylch y ſidan bryf o'r bla'n.

IV.

Mae'r lili gwyn, a'r plyſyn byw,
Yn well eu trwſiad gwell eu lliw ;
Er gwiſgo'n hardd mae pryfed mân
Hediaid a blodeu o hyd o'm bla'n.

V.

Gan hynny mi a roſ fy mryd
Ar wiſgo f' enaid gwerthfawr drud;
Gwybodaeth, rhinwedd, gwir a gras,
Yw'r gwiſgoedd gwerthfawrocca i ma's.

VI.

Nid pryfed mwy gyſtadla â mi,
A hon ymdrwfia angylion fry;
Ac yn y byd pan fu Mab Duw
Hon oedd ei wiſg nefolaidd yw.

VII.

Ni phydra 'i byth, a hen ni thry,
Nid ofna 'i lwydni g'law na phry';
Pa fwya gwiſger hon bob dydd,
Ni chyll mo'i gawr diſgleiriach fydd.

VIII.

Hon wiſgaf tra bwyf yn y byd,
Ac âf i'r nef i'w gwiſgo o hyd;
Hardd iawn yw hon yngolwg Duw,
Ei waith ei hun a'i hoffder yw.

CAN XXIII.

UFUDD-DOD i RIENI.

I.

GWrandawed plant s' ani ofni'r Ion,
Lais eu hathrawon beunydd;
Rhont i'w rhieni deilwng barch,
A gwnant eu harch yn ufudd.

II.

Gwrandewch y goſp, ofnadwy yw,
A fygwth Duw roi arno;
A dorro arch ei dad ar gam,
Neu air ei fam watwaro.

III.

Pa drwm euogrwydd arno drig?
Mae'n felldigedig druan!
Y cigfrain dynn ei lygaid ef,
Eryrod nef a'u bwyttan.

IV.

Ond duwiol oſtyngedig blant,
A barchant eu rhieni ;
Cânt ar y ddaear fyw yn hir,
A'u dwyn i dir goleuni.

CAN XXIV.

ACHWYNIAD PLENTYN.

I.

PA ham ar chwareu rhof fy mryd,
Mor fawr mor ddiwyd beunydd ;
Heb gofio am nef nac uffern chwaith,
Na'r duwiol waith o grefydd ?

II.

I beth darllena 'i Mibl cu ?
Duw, ond i ddyſgu 'th 'wyllys ;
A gaf fi ddarllen hwn tra bwy,
A bod yn fwy gwrth'nebus ?

III.

Fy nghalon, ffol a gwyllt yw hon !
A choegion yw meddyliau ;
Toſturia wrth fy ngwendid hwn,
Rho bardwn am fy meiau.

IV.

Par immi wrando'th nefol lais,
Ac ymgais i weddio ;
Can's Duw, rydd rafol gluſt i'r plant,
Y rhai a alwant arno.

CAN XXV.

CAN FOREUOL.

I.

I'R haul ordeiniaiſt, fy Nuw mawr,
Ei briod awr i godi ;
A gyrraiſt hwn o gylch y ne',
I roi i bob lle oleuni.

II.

O'r dwyrain bell y bore mae
Fel cawr yn dechre 'i yrfa;
Ni flina byth 'ni orphwys chwaith,
Dros ddaear faith tywynna.

III.

Fel ynteu boed i mi gwplau,
Fy nyledſwyddau beunydd;
Gan ddechreu'n fore a theithio o hyd,
Tu a'r nefol fyd yn ufudd.

IV.

Rho im', O Dduw, dy nefol rad,
A'm henaid nad i gwyno,
I foreu ddydd fy einioes fer
Gael oll ei ofer dreulio.

CAN XXVI.

CAN BRYDNHAWNO.

I.

'NAWR un dydd arall heibio aeth,
Y Duw a'm gwnaeth wy'n foli;
Ei ras ef a'i ragluniaeth ſydd
Y nos a'r dydd i'm gweini.

II.

Ond ofer rhed fy mebyd i
A mawr yw rhi' fy meiau;
Duw maddeu'r rhan aeth heibio'n ffol,
Rho nerth ſy 'nol o'm dyddiau.

III.

Fy nghorph i gyſgu lawr mi rho,
D' angylion fo'n caſtellu
O gylch fy mhen trwy'r t'wyllwch du
A gwilio o ddautu ngwely.

IV.

Fy llygaid rhof i gau'n ddifraw,
'Rwyt ti gerllaw i'm gwarchad;
A'r boreu gad im' godi'n glau,
A llawenhau 'n dy gariad.

CAN XXVII.

Ar foreu-ddydd yr ARGLWYDD.

I.

HWN ydyw'r dydd, na fyddwn drift,
Y cododd Crift o farw;
Pa ham y treuliai f' oriau glân
Mewn cwfg a heppian heddyw?

II.

Hwn ydyw'r dydd y drylliodd ef
Nerth uffern gref ac angau;
A wifgaf fi iau *Satan* mwy,
A charu yn hwy fy meiau?

III.

Hwn ydyw'r dydd daw'th bobl di
I'th gyd-addoli'n hylwydd;
Dymunwn inneu fyn'd ar frys
I ddyfgu'th 'wyllys, Arglwydd.

IV.

I ado'm chwareu 'r wy'n ymroi,
Ac ymbartoi i'r byd nefaf;
O par im' garu'th fanctaldd ddydd
O'r faith hwn fydd yn bennaf.

CAN XXVIII.

Ar Brydnhawn-Ddydd yr ARGLWYDD.

I.

ARglwydd, mor hyfryd gennyf fi
Wel'd tyrfa yn d' addoli di;
Gweddio a chanu maent ynghyd,
A dyfgu'r ffordd i'r nefol fyd.

II.

Bum yno, ac âf etto o hyd,
Mae'i fel nef fechan yn y byd;
Nid chwarae na'r pleferau fydd,
Wna im' anghofio'th fanctaidd ddydd.

III. 'Sgri-

III.

'Sgrifenna i'm cof, fel yno cair,
Deſtynau ac athrawiaethau 'th air,
Fel byth na thorrwy'th ddeddfau glân,
Ond gwell dy garu nag o'r bla'n.

IV.

Meddyliau am GRIST ſo'n glynu'n glos,
A llanw nghalon yn y nos;
Rho bardwn trwy ei waed i mi,
Gael hunɔ a deffro gyd â thi.

Y DEG GORCHYMMYN *o'r Hen Deſtament, wed, eu goſod mewn Cynghanedd ferr i Blant.*

I. NA foed it' ddŭwiau ond myfi.
II. Un eulun nac addola di.
III. Nac ofer gymmer Enw Duw.
IV. Na lygra'r Sabbath ſanctaidd yw.
V. Rhŏ i'th rieni barch a bri.
VI. Na wna lofruddiaeth gochel di.
VII. Cadw rhag aflan air neu waith.
VIII. Er tlodi na ladratta chwaith.
IX. Na fydd, na châr ſod yn gelwyddog.
X. Na chwennych eiddo dy gymmydog.

Swm y GORCHYMYNION *allan o'r Teſtament Newydd.*

A'TH enaid oll câr DDUW, O ddyn,
A phob cymmydog, fel dy hun.

Rhŏ

Rheol auraidd ein IACHAWDWR.

MAT. vii. 12.

BY DD di i eraill dêg a mwyn,
Fel mynni eraill it' ymddwyn;
Na wna ac na ddywed wrth un dyn,
Y peth na chym'rid ti dy hun.

Ein Dyledſwydd i DDUW a'n CYMMYDOG.

CAR Dduw â'th enaid a'th holl fryd,
A'th nerth i gyd, a'th galon;
Câr dy gymmydog fel dy hun,
Bydd gyfiawn fwynddyn ffyddlon.
Gwna i eraill fel y mynnit gael
Yn ddiwael ganthynt hwythau;
Y peth na chym'rit gan un dyn
Na wna dy hun mewn un lle.

HOSANNA i GRIST. Meſur hir.

III.

HOſanna i Fab *Dafydd* ſy
'N teyrnaſu ar yr orſedd fry;
Bendithiwn d'wyſog nef i gyd,
Dyg iechydwriaeth lawr i'r byd.

II.

Boed i bob oedran a phob iaith
Ymrwymo yn hyn o hyfryd waith;
Hen bobl a phlant yn *Seion* ſy
Dyrchefwch glod eich Prynwr cu.

Meſur

Meſur cyffredin.

HOſanna i D'wyſog gras, (heb gel)
O *Seion* gwel dy Lywydd ;
A dyſg dy blant i foli'n ffraeth,
Y Mab o hiliogaeth *Dafydd.*

II.

Hoſanna i'r Gair yn gnawd a wna'd,
Oddiwrth y Tad daeth IESU,
Y iechydwriaeth iddo rhoer,
A'i Enw foer yn foli.

GOGONIANT i'r TAD, &c.

Meſur hir.

I'R Tad a'r Mab a'r Yſpryd Glân,
Un Duw trag'wyddol di wahan ;
Mawl a gogoniant ſo 'mhob lle,
Gan bawb trwy'r ddaear hon a'r ne'.

Meſur cyffredin.

ADDoler Duw y Tad o hyd,
A'r Mab a'r Yſpryd ſanctaidd ;
Gan bawb o'r Saint dan wybren ſy,
A'r diſglair lu nefolaidd.

hai CANIADAU moeſol.

CAN I.

r CYSGADUR neu'r DIOGYN.

I.

Lais y cyſgadur, a glywaf yn cwyno,
Deffrowyd fi'n rhy gynnar rhaid heppian peth etto;
drws ar ei golyn mae'n troi ar ei wely,
ben a'i yſgwyddau a'i yſtlyſau o ddautu.

II.

hydig fwy gyſgu, ychydig fwy heppian;
hyn traul ei ddyddiau a'i oriau mor chwarian,
plan fo'n cyſodi, mae'n plethu ei ddwylo,
feddwl yn rhedeg ar wagedd pan rodio.

III.

r ardd aethum heibio a gwelais y dryſni
r drain oedd fel coedwig a'r yſgall yn codi;
i gylch 'r oedd ei ddillad yn garpiog a thyllau,
i arian fe'i gwâriodd nes ydoedd mewn eiſiau.

IV.

mwel'd ag ef aethum ryw bryd gan obeithio
fod ef o'i wagedd 'nawr wedi diwygio;
lroddei freuddwydion, ei fwyd a'i ddiodydd,
:b grybwyll un gronyn am Dduw nac am grefydd.

V.

Wel dyma wers i mi 'be fi wrth fy nghalon,
Fel hyn bu'ſwn inneu o boſibl yn union ;
Ond diolch i'm ceraint a'm dyſgodd i garu,
I weithio a darllain yn gynnar heb ballu.

II. *Chwareyddiaeth ddiniwaid.*

I.

WRTH wel'd yr ŵyn ifaingc i maes yn y caeau,
Yn chwareu a llammu yn ochor eu mammau,
A'u cnyſiau mor lân ac mor wyn ;
Neu nyth o g'lommennod mewn man gyd a'u gilydd,
Mewn cariad yn chwareu heb ddigter na cherydd,
Beth allwn di ddyſgu oddiwrth hyn ?

II.

Pe bu'ſem ni hwyaid trybaeddſem mewn llaid,
Neu gŵn g'llſem ymladd a'u gilydd heb baid,
Mae nattur mor gâs ac mor greulon ;
Ond *Tomas* a *Wiliam* blant bach byddwch fwyn,
A glân a di-ddrwg fel c'lommennod neu ŵyn,
Gre'duriaid di-niwaid a gwirion.

III.

Ni ddylai neb wneuthur a'u gilydd ddim cam,
Neu niwaid, wrth gellwair neu chwareu, waith pa'm,
O bryſur ſe deimlir y clwyf :
Plant drwg taflu cerrig ar antur a wnan',
Fel ynfyd a daflei o amgylch y tân
A d'wedyd, *Ond cellwair yr wyf.*

III. T

III. *Y RHOSYN.*

I.

MOR hardd yw y rhoſyn ei liw ef a'i ddull,
Gogoniant mis *Ebrill* a *Mai* ;
Ond dail hwn pan dorrer a wiwa'n ddioed,
A chrin mewn diwarnod neu lai.

II.

Ond etto y rhoſyn ymffroſtio all e'
Uwch blodeu y maeſydd i gyd ;
Pan gollo fe'i liw, a gwiwo o'i wedd,
Mae arogl e'n beraidd o hyd.

III.

Mor frau ydyw ie'ngctid a thegwch dyn byw,
Er iddynt fel rhoſyn deccau ;
Ac er ein holl ofal i'w cadw, nid gwiw,
Eu lladd y mae amſer yn glau.

IV.

Ni byddaf balch mwyach o'm hie'ngctid na'm pryd,
Mewn munud y gwiwa eu gwedd ;
Ond gwneuthur daioni arogli wna hyn,
Fel rhoſyn pan f'wy yn fy medd.

IV. *Y Lleidr neu 'r Yſpeiliwr.*

I.

PA ham y drygaf fy nghymmydog,
Myn'd â'i foddion heb ei fodd ?
At waith oneſt y gwnaed dwylo,
Nid i 'ſpeilio mewn un modd.

II.

Twyllo'i hun mae hwnnw'n erchyll
A gais ennill trwy ffordd ddrwg ;
Oll trwy ledrad a ennillir
Gofid, gwarth a blinder ddwg.

III.

Oni ddyſgodd *Efa* ac *Addaf* i ni
Gyfrif eu hennill hwy ar hynt ?
Dugaſant ni i 'ſtâd golledig,
Wrth ddwyn y ffrwyth gwarddedig gynt.

IV.

Mynych gwelſom un yn dechreu
Arfer drygau bach ar dro,
Pan galedei mewn anwiredd
Crogbren ſyddei ' ddiwedd fo.

V.

Lledrad byth ni bydd guddiedig,
Er in' dybio 'i fod yn gêl ;
Pan gymmerom beth gwarddedig
Duw â'i lygad craff a'i gwel.

VI.

Cadw nghalon i rhag arfer
Chwennych dim nad f' eiddo yw,
Rhag im' ddwyn y peth na rodder,
Cadw nwylo 'n lân O DDUW.

V. *Y Morgrugyn.*

I.

Y Morgrug mor ſychain ynt i'n golwg ni,
Ni a'u ſathrwn i'r llwch nes trengont yn llu,
Heb briſio mo honynt byth mwy;
Ond er doethed y'm, i'w hyſgol od awn,
Mae llawer diogyn a dwlyn di-ddawn,
All ddyſgu gwers ddoeth ganddynt hwy.

II.

Ni threuliant mo'u hamſer yn ofer difudd,
Ond caſglu eu lluniaeth ar ddiſglair des ddydd,
Par'toi erbyn gauaf yn iawn;
Hwy drefnant eu gorchwyl mor ddoeth ac mor lew,
Fel rhai yn rhagweled y 'ſtormydd a'r rhew,
Wrth fudo eu bwydydd i mewn.

III.

Ond fi ſy'n llai'm ſynwyr nâ'r morgrug diblaid,
Os na chym'raf ofal am bethau ſy raid,
Par'toi rhag peryglon mewn pryd:
Pan ddel angeu neu henaint i'm hwyneb yn brudd,
Pa adyn gwael fyddaf yn niwedd fy nydd,
Os gwag dreulia'm ie'ngctid i gyd.

IV.

'Nawr, 'nawr boed i'm feddwl mewn ie'ngctyd a grym
Pa beth a'm gwas'naetha pan ddel clefyd llym,
Ac erfyn maddeuant gan Dduw:
'Mroi darllen a chredu a gwir ufuddhau,
Fel pan drotho angau fi maes o'r tŷ clai,
Caf yn y nef balas i fyw.

VI. *Ymroadau da.*

I.

ER 'mod i 'nawr yn ifangc heini,
Ni's gwn i beth all ddigwydd i mi;
Par'toaf i bob cyflwr heddyw,
Lle byddo amſer yn fy ngalw.

II.

Os byddaf fawr neu yn gyfoethog,
Caiff eraill fod o'm da'n gyfrannog;
Mi a ddiwalla'r dlawd â lluniaeth,
Heb ddangos gwawd ac anyſtyriaeth

III.

Lle gwelwy'r cloff, dall, mud, neu fyddar
Ymddygaf iddynt hwy yn hawddgar,
Yr un peth wy'n haeddu deimlo
Os gwatwaraf hwy neu'u taro.

IV.

Os rhydd neb im' dafod diffaith,
Ni ddychwelaf hwnnw eilwaith;
Y ffordd oreu i ddial camwedd
Yw dioddef trwy amynedd.

V.

Pan y clywyf rai'n dweud celwydd,
Tyngu a rhegu yn ddig'wilydd,
Mi brofa'u gwneud yn ddoeth yn gyntaf,
Neu o'u clyw yn glau 'madawaf.

VI.

Beth er byddaf wael mewn tlodi,
Rhai mawr a llawn a rwyma'i ngharu,
Tra bwy'n oneſt glân ac ufudd
Yn ymoſtwng wrth eu cerydd.

VII.

Os claf fyddaf neu anghenog,
'Rwy'n diſgwyl cwrdd â rhai trugarog;
Gan 'mod i'n caru helpu'r gweinion,
Er nad ydynt lân na doethion.

VIII.

O'm bodd ni anfoddlonaf ddynion,
Na chym'ryd f' anfoddloni'n union;
'R hyn nid yw iawn mi brofa'i wella,
Os ni wellir mi goddefa'.

IX.

Bydded i mi wilio 'n waſtad
Ar fy 'nwydau a'm hymddygiad;
Fel na dd'wettwyf ddrwg na'i wneuthyd,
Er bod eraill yn 'i arferyd.

X.

I uffern arfer ddrwg ſy'n ledio,
Byth na chaffer fi'n cydſynio;
Ond arwain bywyd hyfryd heddyw,
Nad ofnwyf foru fyn'd i farw.

VII. *Prydnhawn ddydd Haf.*

I.

MOR dêg fu 'r diwarnod, mor ddiſglair fu 'r haul,
Fe redodd ei yrfa heb flinder na thraul,
Er iddo mewn niwl gyfodi yn wael,
Ac wedi'n daeth gwlaw amboll ddafn ;
Ond 'nawr wedi dod i'r gorllewin fel cawr,
Fel aur yw ei belydr a thegwch ei wawr,
Yr wybren mae'n llwio wrth fyned i lawr,
A chyfyd yn ddiſglair drachefn.

II.

Fel hyn dechreu'r Criſtion ei yrfa 'n ddiau,
Fel haul yn y niwl wrth edifarhau,
Mae'n toddi yn ddagrau ac yna'n tegcau,
A myn'd i'w ffordd nefol mewn hedd ;
Ond hwn gerllaw diwedd ei yrfa a fydd,
Fel haul teg yn machlud yn gryfach ei ffydd,
Rhydd obaith diogel ar ddiwedd ei ddydd
O godi'n fwy diſglair ei wedd.

Hymn y Cryd neu 'r Gadair.

I.

HYST ! f' anwylyd, gorwedd, heppian,
Angylion gwilian di o'r nen ;
Bendithion nefol heb rifedi
Sy'n diferu ar dy ben.

II.

Cwſg, fy mabi, ffryns ſydd droſot
  Yn darparu yn ddibaid ;
Fwyd a dillad, tŷ heb daliad,
  Pob peth ag ſydd angenrhaid.

III.

Pa faint gwell 'r ys yn dy weini
  Nâ'r glân Iesu 'n Harglwydd ni ?
Pan ddiſgynnodd lawr o'r nefoedd,
  Yn Fab bach un modd a thi.

IV.

Eſmwyth, tyner ydyw'th gader,
  Caled oedd lle'th Geidwad cu ;
Pan y ganed e'n y beudy,
  Gwair ei wely gore fu.

V.

Hyfryd faban, pur ei anian,
  Gwych a gwiwlan, coch a gwyn !
Duw gogoned ymhlith 'ſgrybliaid,
  Synne' angylion weled hyn.

VI.

A allſei pechaduriaid 'ſgymmyn,
  Roi ond preſeb (gwael yw'r lle !)
I roeſawi'r nefol Frenhin
  Ai fel hyn amharchwyd e' ?

VII.

Hyſt fy mhlentyn nid wy 'nganyd
  Geiriau celyd wrthyt ti ;

Wrth dy glun dy { * fam ſy'n / fammaeth } eiſte,
D' amddiffyn caiff fy mreichiau i.

VIII.

Coffa 'r wy'r Iuddewon cethin,
Amharchei 'u Brenhin mawr fel hyn;
Fel y trinient DDUW'r gogoniant,
Canu 'r wyf mewn ſorriant ſyn!

IX.

Wele o'i gylch fugeiliaid mwynion
Dweud arwyddion 'r oent o'r nef;
Ceiſient ef ac yno cawſan',
A'i ſam burlan gyd ag ef.

X.

Wele'i 'n gwiſgo'r hawddgar IESU,
Mwyn mae'n gwenu Faban gwiw!
Pan fae'n wylo ma'i'n dyhuddo,
Canu a ſuo i'r plentyn ſyw.

XI.

Wele 'n cyſgu yn y preſeb!
Cor yr ychen cyrnig hŷ;
Hedd f' anwylyd, nid oes perygl,
Ych gerllaw i'th wely di.

XII. Er

* Yma gellwch arfer y geiriau *brawd, chwaer, câr, ffrynd, &c.*

XII.

Er dy fwyn di blentyn hoyw
Rhag it' farw a myn'd i'r tân,
Rhag wylofain byth ac ochain,
I'th achub daeth dy Brynwr glân.

XIII.

Byw i'w 'nabod ef a wnelech,
A'i garu tra fech byw a bod;
A myn'd atto i drag'wyddoldeb,
Gwel'd ei wyneb, canu ei glod.

XIV.

Mi'th gufanwn fil o weithiau
Gan obeithio hyn i'th ran,
Byth ni ddichon mam ddymuno
Gwynfyd gwell i'w babi gwan.

DIWEDD.

LLYFRAU a argraphwyd ac ar werth gan I. Ross, yng *Nghaerfyrddin.*

I. A New English-Welsh DICTIONARY: containing all Words neceſſary for Reading an *Engliſh* Author; wherein not only the Correſponding *Britiſh* is given to the *Engliſh*, but alſo every *Engliſh* Word is properly accented to prevent a bad Pronunciation, the Part of Speech added to which each Word reſpectively belongs, and proper Authorities ſubjoined where neceſſary. The Whole carefully Compiled from the moſt approved Authors in both Languages. By William Evans.

II. Agoriad i Athrawiaeth y ddau Gyfammod, dan yr Enwau Deddf a Gras. Pris Swllt.

III. Tyred a Groeſaw at Ieſu Griſt. Pris 10*c.*

IV. Teml Salomon ynghyd â'i Pherthynaſau, wedi ei hyſprydoli. Pris 9*c.*

V. Taith y Pererin. Pris 9*c.*

VI. Yr Aberth Cymmeradwy: neu, Ragoriaeth calon ddrylliog. Yn dangos Nattur, Arwyddion, ac Effeithiau priodol Yſpryd drylliedig. Pris 6*c.*

VII. Y Ffigys-bren anffrwythlon; neu, Eſponiad ar Ddamm'g y Ffigys-bren diffrwyth. Pris 4*c.*

VIII. Myfyrdodau ar y pedwar Peth diweddaf, ſef, Angeu, Barn, Nef ac Uffern. Pris 3*c.*

Y ſaith uchod gan Mr. Ioan Bunyan.

IX. Hunan-

IX. Hunan-Adnabyddiaeth : neu, Draethawd, yn dangos Natur a Mantais y cyfryw Wybodaeth bwysfawr, a'r Ffordd i'w chyrhaeddyd : ynghymmyſg ag amryw o Yſtyriaethau ar y Natur ddynol. Gan *I. Maſon.* Pris Swllt.

X. Oes Lyfr, yn cynnwys Hanes Brenhinoedd a Thywyſogion y Brutaniaid, er eu Sefydliad gyntaf i'r Amſer preſennol. Pris 6 *c.*

XI. Criſt Bywyd y Criſtion. Wedi ei oſod allan mewn dwy Bregeth ar *Phil.* i. 21. Pris 2 *g.*

XII. Gwaedd yng Nghymru yn Wyneb pob Cydwybod, gan *Morgan Llwyd* o Wynedd. Pris 2 *g.*

XIII. Gweledigaethau y Bardd Cwſg. Pris 6 *c.*

XIV. Pob Dyn ei Phyſygwr ei hun, yn cynnwys amryw brif Gyfarwyddiadau i wellhau y Rhan fwyaf o Glefydau, ynghyd â'u Harwyddion ar Ddyn ac Anifail, wedi eu caſglu allan o'r Awdwyr goreu yn yr Oes. Pris 6 *c.*

XV. Attebion i rai Achoſion Cydwybod ar amryw Yſtyriaethau pwysfawr. Pris Swllt.

XVI. Cynghorion Tad i'w Fab. Pris 3 *c.*

XVII. Act o Barliament am y Ffordd fawr. Pris 2 *g.*

XVIII. Act o Barliament am dorri Coed. Pris 2 *g.*

BIBLIOTHECA BODLEIANA

At y CYFFREDIN.

Y mae Cyfeithydd y Caniadau hyn yn bwriadu yn fuan argraphu Llyfr HYMNAU Dr. WATTS yn Gymraeg, ar yr un Ammodau a'r Llyfr Salmau o'i eiddo ef; ar Lythyren newydd, a Phapur da. Pwy bynnag a ewyllyfio annog y Gwaith yn y blaen, danfoned ei Enw i D. Jones, yn Llanwrda, neu I. Rofs, Argraphydd, yng Nghaerfyrddin.

Cyhoeddir ar fyrder Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. FAFASOR POWEL: Ei Bris wedi ei whio mewn Papur glâs fydd un Swllt, yn cynnwys ynghylch 200 o du Dalennau.

Hefyd CATECISM YSGRYTHUROL, Yn Nhrefn Gwyr y Gymmanfa, a 'fgrifenwyd yn Saifneg gan *Mathew Henry*, Gweinidog yr Efengyl, wedi ei ail gydmaru â'r Saifneg, a'i ddiwygio o amryw feiau ag oedd yn yr Argraphiad cyntaf.